# Newidiadau i'n fframwaith ar gyfer asesu perfformiad y BBC

Datganiad

Cyhoeddwyd 18 Gorffennaf 2023

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ... 3
2. Cefndir y Datganiad ... 4
3. Newidiadau i'r Fframwaith Mesur Perfformiad ... 8

A1 Y Fframwaith Mesur Perfformiad ... 16

A2 Asesiadau Effaith ... 17

# 1. Trosolwg

Buom yn ymgynghori rhwng 25 Mai a 23 Mehefin 2023 ar newidiadau arfaethedig i'r fframwaith mesur perfformiad ("y Fframwaith"). Mae'r Fframwaith yn nodi'r mesurau a'r metrigau rydym yn eu defnyddio i fonitro ac asesu perfformiad y BBC wrth hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus a chyflawni ei Genhadaeth.

Yn yr ymgynghoriad, roeddem o'r farn bod y Fframwaith o bedwar mesur yn dal yn effeithiol ac yn addas i'r diben, ond y dylid gwneud newidiadau bach i sicrhau bod y Fframwaith yn dal yn briodol ar gyfer y dyfodol.

Rydym wedi ystyried pob ymateb i'r ymgynghoriad yn ofalus wrth wneud ein penderfyniadau. Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n newidiadau arfaethedig i'r Fframwaith.

Mae'r Fframwaith wedi cael ei gyhoeddi ar wefan Ofcom. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer diwygio'r Fframwaith wedi cael eu hail-gyhoeddi mewn dogfen ar wahân ochr yn ochr â chyhoeddi'r datganiad hwn a'r Fframwaith newydd.

# 2. Cefndir y datganiad

2.1 O dan y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y Siarter),[1] mae'r BBC yn gyfrifol am sefydlu fframwaith i asesu ei berfformiad o ran cyflawni ei strategaethau a'i gylch gwaith creadigol,[2] a'i rwymedigaethau o dan y Siarter a'r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC (y Cytundeb).[3] Mae hyn yn cynnwys mesurau perfformiad (a thargedau ar gyfer y mesurau hynny pan fo'n briodol) i fonitro perfformiad gwasanaethau cyhoeddus yn y DU o ran cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.[4]

cyflawni'r enhadaeth ac yn hyrwyddo'r ibenion yhoeddus.

2.2 Mae Ofcom hefyd yn gallu pennu ei fesurau ei hun, yn ychwanegol at fesurau'r BBC, yr ydym yn ystyried sy'n briodol er mwyn asesu perfformiad gwasanaethau cyhoeddus y DU o ran cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.[5] Maent yn elfen bwysig o sut mae Ofcom yn dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei wasanaethau cyhoeddus, drwy fod yn sail dystiolaeth i fonitro perfformiad y BBC dros amser. Mae Ofcom yn gosod Trwydded Weithredu ar gyfer y BBC sy'n cynnwys amodau rheoleiddio y mae modd eu gorfodi. Ond, yn wahanol i'r amodau hynny, nid yw'r mesurau perfformiad eu hunain yn orfodadwy.

2.3 Mae ein mesurau perfformiad yn cael eu defnyddio fel hyn:

- i fesur perfformiad y BBC o ran cyflawni ei Ddibenion Cyhoeddus bob blwyddyn;
- i'n rhybuddio ni am feysydd posib sy'n peri pryder, y gallai fod angen ymchwilio pellach iddyn nhw, ac y gallai ddangos lle gall amodau rheoleiddio ychwanegol fod yn briodol yn y dyfodol;
- i ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer unrhyw adolygiadau a gynhelir gennym.

## Cefndir cyfreithiol

2.4 Daw pŵer Ofcom i reoleiddio'r BBC o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, sy'n datgan er mwyn rheoleiddio'r BBC y bydd gennym bwerau a dyletswyddau a roddir i ni gan neu dan y Siarter a'r Cytundeb. Mae ein dyletswyddau cyffredinol o dan adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn berthnasol i arfer ein swyddogaethau mewn perthynas â'r BBC. Mae dyletswyddau adran 3 Ofcom yn cynnwys ei brif ddyletswydd sef hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng

[1] Y Siarter.
[2] Erthygl 20(3)(d) o'r Siarter.
[3] Y Cytundeb.
[4] Erthygl 46(4) y Siarter.
[5] Wrth osod ac wrth ddiwygio'r Drwydded, mae'r Siarter yn nodi bod ein rôl ni wedi'i chyfyngu i wasanaethau cyhoeddus yn y DU. Yn ymarferol, nid yw'r BBC yn cyflawni ei bumed diben cyhoeddus drwy wasanaethau cyhoeddus yn y DU: "adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd". Fodd bynnag, wrth gynnal ein hadolygiadau cyfnodol rhaid i ni ystyried perfformiad y World Service o ran cyfrannu at gyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus. Rhaid i'r BBC osod fframwaith ar gyfer asesu perfformiad y World Service (erthygl 20 o'r Siarter) a chyhoeddi gwybodaeth am berfformiad y World Service yn ei adroddiad blynyddol, a chynnal adolygiadau o berfformiad y World Service o leiaf bob pum mlynedd (cymal 35 o'r Cytundeb.). Rydym yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth hon, ac unrhyw wybodaeth arall berthnasol a gawn gan y BBC, i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn.

nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.[6]

2.5 Mae Erthygl 45(2) o'r Siarter yn darparu ei bod yn rhaid i Ofcom ystyried, wrth gynnal ei swyddogaethau, y canlynol fel sy'n ymddangos i ni sy'n berthnasol yn yr amgylchiadau:

- amcan y BBC sef cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;
- pa mor ddymunol ydy diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y Deyrnas Unedig;
- y gofyniad i'r BBC gydymffurfio â'i ddyletswydd o dan y Siarter, gan gynnwys ei ddyletswyddau cyffredinol.

2.6 Mae Erthygl 46 o'r Siarter yn pennu y caiff Ofcom benderfynu ar fesurau (ar ben y rheini sy'n cael eu pennu gan y BBC) y mae'n credu sy'n briodol er mwyn asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU wrth gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.

2.7 Mae'n rhaid i Ofcom gyhoeddi fframwaith gweithredu.[7] Mae'r fframwaith gweithredu ar gyfer rheoleiddio'r BBC yn cynnwys y "Gweithdrefnau ar gyfer gosod a diwygio'r Mesurau Perfformiad" ('y Gweithdrefnau').[8] Rydym wedi dilyn y Gweithdrefnau (ac rydym wedi cymhwyso'r ystyriaethau y maent yn eu rhestru) ynghyd ag egwyddorion ymgynghori Ofcom.

# Cefndir y newidiadau i'r Fframwaith Mesur Perfformiad

## Y Drwydded Weithredu newydd

2.8 Mae'r Drwydded Weithredu newydd yn cydnabod yr angen am reoleiddio mwy cynhwysfawr ar wasanaethau ar-lein y BBC yn erbyn cefndir trawsnewid digidol. Mae'r amodau newydd hyn yn cynnwys gofynion i sicrhau bod gwasanaethau ar-lein y BBC – y wefan, apiau, BBC iPlayer a BBC Sounds – yn unigryw a bod modd dod o hyd i amrywiaeth o gynnwys yn hawdd ar wasanaethau o'r fath.

2.9 Mae'r Drwydded hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC siapio ei wasanaethau a'i allbwn i ddiwallu anghenion newidiol cynulleidfaoedd. Er bod cwotâu'n dal yn nodwedd allweddol o'r Drwydded, cafodd rhai cwotâu eu diwygio neu eu dileu er mwyn caniatáu i'r BBC fwrw ymlaen i ddatblygu ei allbwn a pharhau i gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd. Er mwyn dal y BBC i gyfrif am gyflawni'r newid hwn a'i gylch gwaith, rydym wedi gwreiddio mwy o dryloywder yn y Drwydded drwy osod mwy o ofynion i'r BBC adrodd ar ei weithgareddau a'i allbwn. **Mae'r drwydded yn gosod gofynion penodol a manwl sy'n nodi beth mae angen i'r BBC adrodd yn ei gylch a phryd.** Mae'r rhain yn gorfodi'r BBC i gyflwyno gwybodaeth helaeth, gyda'i Gynllun Blynyddol, am sut bydd yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd, gan gynnwys cyfanswm oriau darlledu ac oriau cynnwys newydd, yn ôl genre. Yna, rhaid i'r BBC werthuso a yw wedi cyflawni'r cynlluniau hynny, gyda'i Adroddiad Blynyddol. Bydd yr

[6] Mae dyletswyddau adran 3 Ofcom hefyd yn cynnwys gofyniad ar Ofcom i ystyried, ym mhob achos, yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen gweithredu ac unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i Ofcom fel rhai sy'n cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau.
[7] Erthygl 46(2) o'r Siarter a Chymal 5(1) o'r Cytundeb.
[8] Ofcom, 2017. Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer ei gynulleidfaoedd: Mesurau perfformiad.

wybodaeth hon yn hollbwysig o ran caniatáu i Ofcom ddal y BBC i gyfrif yn y meysydd hynny o'i ddarpariaeth nad ydynt yn ddarostyngedig i gwotâu.

### Monitro a goruchwylio

2.10 Rydym yn asesu cydymffurfiad â'r gofynion a nodir yn y Drwydded Weithredu ac, ar ben hynny, mae gennym raglen gynhwysfawr o brosesau monitro a goruchwylio perfformiad i sicrhau ein bod yn gallu craffu'n effeithiol ar berfformiad y BBC a nodi unrhyw feysydd sy'n achosi pryder posibl yn gyflym drwy gydol y flwyddyn.

2.11 Mae'r Fframwaith, sy'n nodi'r fframwaith o fesurau a metrigau a ddefnyddir i fesur perfformiad y BBC, yn sail i'n dull gweithredu ar gyfer yr asesiadau a wnawn yn y gwaith monitro a goruchwylio hwn.

## Trosolwg o fesur perfformiad

### Mesur perfformiad y BBC ei hun

2.12 Rhaid i Fwrdd y BBC sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Mae'n gosod fframwaith i asesu perfformiad y BBC o ran cyflawni ei strategaethau a'i gylch gwaith creadigol, a'i rwymedigaethau o dan y Siarter a'r Cytundeb. Mae hyn yn cynnwys mesurau i asesu perfformiad y Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU o ran cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.[9]

2.13 Mae'r BBC yn nodi ei fframwaith mesur perfformiad ei hun bob blwyddyn yn ei Gynllun Blynyddol ac mae'n asesu ei berfformiad ar gyfer ei Genhadaeth a phob un o'i Ddibenion Cyhoeddus.

2.14 Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y metrigau mae'r BBC yn eu defnyddio i asesu perfformiad gyda chynulleidfaoedd ar gael yn Atodiad 1 ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2023-24. Mae'r BBC yn adrodd ar y data cynulleidfa hwn a data ar ei allbwn yn ei Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol.

### Fframwaith Mesur Perfformiad Ofcom

2.15 Yn ogystal â mesurau perfformiad y BBC, mae mesur perfformiad Ofcom ei hun yn darparu asesiad cynhwysfawr o sut mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus gan ddefnyddio amrywiaeth eang o fetrigau a ffynonellau data.[10]

2.16 Mae'r Fframwaith yn nodi'r fframwaith rydym yn ei ddefnyddio i fesur perfformiad y BBC o ran cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus ac mae'n wahanol i gydymffurfio â'r Drwydded Weithredu, sy'n broses ar wahân sy'n cael ei chynnal bob blwyddyn. Mae'r Fframwaith yn nodi *sut* byddwn yn mynd ati i fesur perfformiad y BBC, nid yw'n manylu ar yr holl wybodaeth y byddwn yn ei defnyddio i gyflawni'r broses honno. Nid oes yn rhaid i ni osod mesurau perfformiad ond rydym wedi dewis gwneud hynny i sicrhau ein bod yn gallu dal y BBC i gyfrif yn effeithiol. Mae'r Fframwaith hwn yn nodi'r mesurau perfformiad ac ystod o fetrigau sylfaenol.

---

[9] Erthygl 20(3)(d) o'r Siarter.

[10] Wrth lunio ein mesurau perfformiad ein hunain o fewn y Fframwaith sy'n ychwanegol i'r rheini a fydd yn cael eu llunio gan y BBC, rhaid i ni ystyried y mesurau perfformiad sydd wedi cael eu nodi gan y BBC.

2.17 Dyma’r pedwar mesur perfformiad a nodir yn y Fframwaith newydd:

a) **Argaeledd**: mae hyn yn disgrifio natur, math, swm ac amrywiaeth y cynnwys sydd ar gael ar draws y BBC, yn ogystal â’r gwariant ar y cynnwys hwn.
b) **Defnyddio:** mae hyn yn monitro i ba raddau y mae cynulleidfaoedd yn gwylio, defnyddio ac yn gwrando ar y cynnwys sy’n cael ei ddarparu gan y BBC.
c) **Effaith**: mae hyn yn edrych yn fanwl ar beth mae cynulleidfaoedd yn ei feddwl am wasanaethau ac allbwn y BBC ac mae’n edrych ar yr effaith y mae'r gwasanaethau a'r allbynnau hyn yn ei chael ar gynulleidfaoedd, gan gynnwys pa mor fodlon ydyn nhw gyda gwahanol agweddau ar dulliau hyrwyddo Dibenion Cyhoeddus y BBC.
d) **Ffactorau cyd-destunol:** Mae rhai elfennau o bob Diben Cyhoeddus nad oes modd eu mesur dim ond drwy’r mesurau uchod. Er enghraifft, byddai unrhyw asesiad o record y BBC o ran cymryd risgiau creadigol a darparu cynnwys arloesol yn elwa o ystyried dadansoddiad ychwanegol sy’n cael ei ddarparu gan y BBC, neu farn rhanddeiliaid yn y diwydiant.

2.18 Rydym yn defnyddio cyfuniad o’r mesurau hyn i asesu perfformiad yn erbyn pob Diben Cyhoeddus. Mae’r gwaith rydym yn ei wneud i asesu perfformiad y BBC gan ddefnyddio’r Fframwaith yn cyfrannu’n uniongyrchol at amrywiaeth o allbynnau, gan gynnwys Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC a’n gwaith monitro parhaus.

2.19 Mae gennym amrywiaeth gynyddol o ffynonellau data ac arolygon cynulleidfa ac felly mae’r metrigau sydd ar gael a’n dealltwriaeth o’r ffordd orau o asesu perfformiad yn erbyn rhai amodau wedi datblygu, a byddant yn parhau i ddatblygu. Byddwn yn parhau i adolygu a chynnwys ffynonellau data newydd wrth iddynt esblygu, i fesur llwyfannau ar-lein yn ogystal â chomisiynu gwaith i ddeall canfyddiadau cynulleidfaoedd o wasanaethau ar-lein.

# 3. Newidiadau i'r Fframwaith Mesur Perfformiad

3.1 Yn yr ymgynghoriad, roeddem wedi dweud bod fframwaith cyffredinol Ofcom o bedwar mesur perfformiad yn dal yn briodol ar gyfer ein ffordd ddiweddaraf o fesur perfformiad, ac felly rydym yn bwriadu ei gadw. Er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn briodol, roeddem wedi cynnig gwneud rhai mân newidiadau.

3.2 Cawsom bedwar ymateb i'r ymgynghoriad gan Better Media, Radiocentre, Ymddiriedolaeth Sandford St Martin a Screen Scotland.

## Sylwadau cyffredinol ar yr ymgynghoriad

3.3 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno'n fras â'r bwriadau a nodwyd yn ein dogfen ymgynghori ond roedd pryderon bod ein cynigion yn golygu gostyngiad yn lefel y manylion sydd ar gael i'r cyhoedd ynghylch sut rydym yn monitro perfformiad y BBC. Rydym yn hyderus y bydd y newidiadau rydym wedi'u gwneud i'r Fframwaith yn ein galluogi i ddal y BBC i gyfrif yn well drwy sicrhau ei fod yn gyfredol, yn hyblyg ac yn briodol. Rydym wedi ymrwymo i fod yn dryloyw lle bo hynny'n bosibl. O'r herwydd, bydd unrhyw gyfeiriadau sy'n cael eu tynnu o'r Fframwaith yn dal ar gael i'r cyhoedd drwy ein hadroddiadau blynyddol ar y BBC ochr yn ochr ag amrywiaeth eang o dystiolaeth arall rydym yn ei defnyddio.

3.4 Cytunodd Radiocentre fod y **pedwar mesur perfformiad** yn dal yn briodol. Ni wnaeth rhanddeiliaid eraill sylwadau uniongyrchol ar ba mor briodol yw'r pedwar mesur hyn ond maent yn awgrymu mesurau eraill i'w cynnwys.

3.5 Dywedodd Ymddiriedolaeth St Martin Sandford y dylem ddatblygu **fframwaith i fesur pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys**. Gwnaethom drafod pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys yn ein Datganiad diweddar a gwnaethom osod amodau newydd yn y Drwydded Weithredu. Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu ein syniadau ymhellach yn y maes hwn, ond rydym o'r farn bod y pedwar mesur yn rhoi digon o hyblygrwydd i fesur perfformiad yn erbyn y rhwymedigaethau hyn. Rydym hefyd yn disgwyl amlinellu rhagor o fanylion am ein dull yn ein Hadroddiad Blynyddol nesaf ar y BBC.

3.6 Roedd Better Media yn galw am **ddangosyddion perfformiad yn ymwneud â'r Ddeddf Cydraddoldeb**, a allai gynnwys mesurau amrywiaeth a chynrychiolaeth yng nghynnwys a gweithlu'r BBC, yn ogystal â mesurau boddhad cynulleidfaoedd ymysg gwahanol grwpiau demograffig. Yn ein hymchwil marchnad barhaus, rydym yn gofyn i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd pa mor fodlon ydyn nhw â'r ffordd mae'r BBC yn cyflawni ei Ddibenion Cyhoeddus ac mae hyn yn cynnwys cwestiynau am gynrychiolaeth ar y sgrin. Mae Ofcom hefyd yn cynnal proses bob blwyddyn ar gyfer monitro Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad mewn Darlledu er mwyn asesu amrywiaeth gweithlu'r BBC ac adrodd ar y canfyddiadau. Ar ben hynny, mae gan y BBC rwymedigaethau tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad pellach yn y Drwydded Weithredu; mae hyn yn cynnwys gofyniad i gynhyrchu ac adrodd yn erbyn cod ymarfer sy'n nodi'r camau y bydd y BBC yn eu cymryd wrth gomisiynu cynnwys ar draws pob genre er mwyn sicrhau bod cynnwys o'r fath yn cynrychioli'n gywir y cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig, yn rhoi portread dilys ohonynt ac yn eu hadlewyrchu. Rydym o'r farn bod y mesurau a nodir yn y Fframwaith, ynghyd â'r gwaith monitro ychwanegol yn y

maes hwn, yn effeithiol ar gyfer asesu perfformiad y BBC o ran hyrwyddo Diben Cyhoeddus 4 a chyflawni ei rwymedigaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad ehangach.

3.7 Mynegodd Better Media bryder hefyd nad oedd **dull gweithredu Ofcom ar gyfer ymgynghori** ar y Fframwaith yn briodol i gynulleidfa gyhoeddus ac roedd yn awgrymu dulliau eraill o ymgysylltu â'r cyhoedd. Roedd hefyd yn awgrymu nad oedd digon o wybodaeth wedi'i chyhoeddi am berfformiad y BBC a bod diffyg ymgysylltu wedi bod ynghylch dibenion y BBC. Rydym yn cytuno bod ymgynghori â'r cyhoedd yn bwysig a byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd newydd o ymgysylltu ymhellach â chynulleidfaoedd. Rydym yn cynnal arolygon o gynulleidfaoedd a grwpiau ffocws yn rheolaidd, yn ogystal ag ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid, gan gynnwys y rheini sy'n cynrychioli cynulleidfaoedd. Rydym hefyd yn ymgynghori'n gyhoeddus ar newidiadau arfaethedig i reoleiddio. Er enghraifft, roeddem wedi ymgynghori dair gwaith ar Drwydded Weithredu'r BBC cyn cyhoeddi ein datganiad ym mis Mawrth. Bob blwyddyn, rydym hefyd yn cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC a data perfformiad cysylltiedig. Dan ein Trwydded Weithredu newydd ar gyfer y BBC, mae'r BBC yn rhwym wrth ofynion newydd i adrodd ar ragor o wybodaeth yn ei Gynllun Blynyddol ac i gyhoeddi rhagor o wybodaeth gyda'i Adroddiad Blynyddol.

3.8 Ni chawsom unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch ein hasesiad o'r effaith ar y Gymraeg.

3.9 Trafodir yr ymatebion i'n cynigion penodol isod. Rydym hefyd wedi crynhoi'r awgrymiadau rydym yn credu eu bod y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, gyda'n rhesymau, o baragraff 3.44 ymlaen.

## Dileu cyfeiriadau at ffynonellau data penodol

### Yr hyn a ddywedom ni

3.10 Mae'r Fframwaith blaenorol a gyhoeddwyd yn 2017 yn disgrifio'r pedwar mesur perfformiad ac yna'n darparu crynodeb o'r prif ffynonellau data y bwriadwn eu defnyddio ym mhob mesur i fonitro sut mae'r BBC yn cyflawni'r Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.

3.11 Fodd bynnag, ers ei gyhoeddi yn 2017, rydym wedi diweddaru ac ehangu'r metrigau a'r ffynonellau data sy'n sail i bob mesur perfformiad. O ganlyniad, ac fel y nodir, mae llawer o'r ffynonellau data sydd wedi'u cynnwys bellach wedi dyddio ac nid ydynt yn cael eu defnyddio mwyach. Rydym hefyd yn disgwyl i'r metrigau a'r ffynonellau hyn barhau i esblygu wrth i allbwn y BBC newid, wrth i'r farchnad ddatblygu, wrth i ymddygiad cynulleidfaoedd newid, ac wrth i ffynonellau data newydd a gwell ddod ar gael.

3.12 Roedd Fframwaith 2017 yn nodi nad yw'r rhestr hon o ffynonellau'n gynhwysfawr ac y gallai esblygu dros amser, ond yn ein hymgynghoriad, roeddem o'r farn ei bod yn briodol manteisio ar y cyfle i ddiweddaru'r Fframwaith, yn dilyn cyhoeddi'r Drwydded Weithredu newydd y BBC yn ddiweddar, i sicrhau nad yw'n cynnwys gwybodaeth sydd wedi dyddio.

3.13 Fe wnaethom ddweud y byddem yn nodi'r mathau o ffynonellau rydym yn eu defnyddio yn y Fframwaith newydd. Ar ben hynny, cyfeirir at ein holl ffynonellau data drwy gydol Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC ac mae ehangder y data a ddefnyddir yn cael ei ddangos yn yr adroddiad data rhyngweithiol blynyddol sy'n cyd-fynd ag Adroddiad Blynyddol Ofcom.

## Ymatebion rhanddeiliaid

3.14 Mae Radiocentre yn cydnabod y rhesymeg dros ein cynnig, ond maent yn awgrymu nad oes angen i ni ddileu pob cyfeiriad at ffynonellau data, ond yn hytrach dileu'r ffynonellau sydd wedi dyddio. Maent yn poeni'n benodol y gallai dileu'r cyfeiriad at rai ffynonellau data craidd yn y diwydiant, fel RAJAR a BARB, danseilio cywirdeb ein gwaith mesur perfformiad.

3.15 Mae Screen Scotland yn galw am dryloywder o ran y ffynonellau data rydym yn eu defnyddio ac maent yn nodi eu bod yn gwerthfawrogi'r gallu i gymharu'r amrywiaeth o ddata a ddefnyddir dros amser. Maent yn awgrymu y gellid defnyddio adroddiad technegol cadarn sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd neu debyg i gyfeirio at ffynonellau presennol a blaenorol lle bo angen.

## Ein penderfyniad

3.16 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r newid arfaethedig i ddileu cyfeiriadau at ffynonellau data penodol yn y Fframwaith newydd.

3.17 Rydym yn defnyddio'r ffynonellau data mwyaf perthnasol a phriodol sydd ar gael i ni wrth asesu perfformiad y BBC, sy'n cynnwys y ffynonellau hynny sy'n allweddol i fesur y diwydiant, gan gynnwys RAJAR a BARB. Ni fydd dileu cyfeiriadau penodol at y ffynonellau hyn yn y Fframwaith newydd yn effeithio ar eu defnydd yn ein rhaglen waith mesur perfformiad.

3.18 Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, mae'r holl ffynonellau data a ddefnyddir yn ein hasesiad o berfformiad y BBC wedi'u nodi ochr yn ochr â'r data yn yr adroddiad data rhyngweithiol blynyddol a thrwy gydol Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC. Mae'r rhain yn rhoi darlun mwy cynhwysfawr a chywir i randdeiliaid o'r data rydym yn ei ddefnyddio, o'i gymharu â rhestr ddangosol a nodir yn y Fframwaith newydd. Mae ein gwefan hefyd yn cynnwys yr holl adroddiadau data rhyngweithiol blaenorol. Rydym yn cytuno bod gallu cymharu data o un flwyddyn i'r llall yn bwysig, ond rydym hefyd yn nodi bod angen yr hyblygrwydd arnom i newid ein ffynonellau data lle bo hynny'n briodol wrth i ffynonellau newydd ddod ar gael.

3.19 Er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn gwbl dryloyw o ran y ffynonellau data rydym yn eu defnyddio i fonitro perfformiad y BBC ac sy'n bwydo i mewn i'n Hadroddiad Blynyddol ar y BBC, rydym hefyd yn bwriadu cynnwys atodiad newydd yn ein Hadroddiad Blynyddol sy'n nodi'r holl ffynonellau data rydym wedi'u defnyddio ar gyfer ein hasesiad ochr yn ochr â phedwar mesur perfformiad y Fframwaith.

# Ailfformatio cyflwyniad metrigau

## Yr hyn a ddywedom ni

3.20 Roedd Fframwaith 2017 yn nodi 'set sylfaenol o dystiolaeth' yr ydym wedi ymrwymo i'w chasglu. Roedd y dystiolaeth hon ar ffurf metrigau penodol a nodir yn ôl Diben Cyhoeddus.

3.21 Roeddem o'r farn nad oedd y 'set sylfaenol o dystiolaeth' yn addas i'r diben mwyach, oherwydd mewn rhai achosion nid yw'r isafswm o fetrigau a nodwyd yn 2017 yn cael ei ystyried yn gynhwysfawr o'i gymharu â'r ystod o fetrigau rydym yn eu defnyddio heddiw i asesu perfformiad y BBC. O'r herwydd, roeddem wedi dweud y byddai'n fwy defnyddiol nodi yn y Fframwaith newydd, enghreifftiau o'r ystod o fetrigau rydym yn eu defnyddio wrth asesu perfformiad, yn hytrach na nodi lefel sylfaenol o dystiolaeth.

3.22 Roeddem felly yn cynnig dileu'r 'set sylfaenol o dystiolaeth', ac yn ei lle, nodi mwy o fetrigau enghreifftiol o dan bob mesur.

3.23 Ar ben hynny, roeddem yn cynnig casglu'r metrigau hyn at ei gilydd yn hytrach na'u gosod allan yn ôl Diben Cyhoeddus. Roeddem wedi dweud bod llawer o'r metrigau a restrir yn ailadrodd ar draws y Dibenion Cyhoeddus a gellid eu haddasu i asesu perfformiad amrywiaeth o amodau.

## Ymatebion rhanddeiliaid

3.24 Dywedodd Radiocentre eu bod yn deall dymuniad Ofcom i ddarparu ystod fwy cynhwysfawr o fetrigau ond eu bod yn awgrymu bod y cynigion yn cael gwared ar fanylion. Maent hefyd yn nodi nad oedd unrhyw enghraifft yn y ddogfen ymgynghori o sut y byddai'r cyflwyniad newydd yn edrych, gan ei gwneud yn anodd asesu'r cynnig.

3.25 Roedd Screen Scotland yn cytuno â'r cynnig mewn egwyddor ond roedd hefyd yn gobeithio gweld bod yr enghreifftiau o'r ystod o fetrigau a fydd yn cael eu cyhoeddi yn y Fframwaith yn rhoi sylw mwy amlwg i gynulleidfaoedd rhanbarthol a chenedlaethol.

## Ein penderfyniad

3.26 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r newid arfaethedig o ran sut mae metrigau yn cael eu cyflwyno yn y Fframwaith newydd.

3.27 Rydym wedi nodi'r cyflwyniad arfaethedig o'r mesurau a'r metrigau yn yr atodiad i'n hymgynghoriad ac rydym wedi'i ddarparu isod. Rydym o'r farn bod y cyflwyniad newydd hwn o fetrigau yn rhoi darlun mwy cynhwysfawr o'r mathau o wybodaeth a data a fydd yn cael eu defnyddio o'i gymharu â'r 'set sylfaenol o dystiolaeth' flaenorol a ddarparwyd ar gyfer pob diben cyhoeddus fel y nodir yn Fframwaith 2017. Fel sy'n cael ei egluro uchod, byddwn hefyd yn cyhoeddi atodiad newydd yn ein Hadroddiad Blynyddol sy'n nodi'r holl ffynonellau data rydym wedi'u defnyddio ar gyfer ein hasesiad yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu i roi darlun mwy cyflawn i randdeiliaid o'r ystod o fetrigau rydym yn eu defnyddio bob blwyddyn.

**Ffigur 1: cyflwyniad newydd metrigau**

| | Metrig |
|---|---|
| **Argaeledd** | Allbwn y BBC: gan gynnwys, er enghraifft, oriau yn ôl gwasanaeth, genre, amser o'r dydd, a ffynhonnell (boed hynny'n gynnwys gwreiddiol neu wedi'i brynu, yn cael ei ddangos am y tro cyntaf neu'n cael ei ailadrodd). |
| | Gwariant ar gynnwys y BBC: gan gynnwys, er enghraifft, gwariant cyffredinol yn ôl platfform (teledu, radio, ar-lein), a gwariant rhaglenni teledu yn ôl genre, sianel a ffynhonnell (rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, rhaglenni sy'n cael eu prynu, a chynnwys sy'n cael ei ailadrodd). |
| **Defnydd** | Gwylio teledu: gan gynnwys, er enghraifft, yn ôl genre a gwasanaethau, a ddarperir fel arfer mewn munudau. |
| | Gwylio ar BBC iPlayer: gan gynnwys, er enghraifft, cymariaethau â phlatfformau SVoD a BVoD eraill. |

| | Metrig |
|---|---|
| | Gwrando ar y radio: gan gynnwys, er enghraifft, cyrhaeddiad gorsafoedd, proffiliau cynulleidfaoedd gwahanol orsafoedd a chyfran y gwrando cyffredinol ar y radio. |
| | Gwrando ar BBC Sounds: gan gynnwys, er enghraifft, cyrhaeddiad ymysg gwrandawyr podlediadau, defnyddio BBC Sounds ar gyfer cynnwys newyddion a phroffil cynulleidfa yn ôl oedran. |
| | Cael gafael ar gynnwys ar wefan y BBC: gan gynnwys, er enghraifft, porwyr unigryw i safleoedd newyddion y BBC a chyrhaeddiad yn ôl demograffeg. |
| **Effaith** | Barn cynulleidfaoedd: gan gynnwys, er enghraifft, sgoriau gwasanaethau'r BBC, canfyddiadau o natur unigryw, barn am berthnasedd cynnwys a chynrychiolaeth. |
| | Effaith uniongyrchol ar gynulleidfaoedd: gan gynnwys, er enghraifft, datblygu metrigau sy'n ein helpu i werthuso'r effaith mae cynnwys wedi'i chael ar gynulleidfaoedd. |
| **Ffactorau Cyd-destunol** | Mae ffactorau cyd-destunol yn fesur eang, a allai gynnwys amrywiaeth o fetrigau, gan gynnwys, er enghraifft, deall allbwn y BBC yng nghyd-destun tueddiadau a data ehangach y farchnad. |

3.28 Mae perfformiad y BBC o ran darparu cynnwys i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn rhan allweddol o'n hasesiad o berfformiad y BBC o ran hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus a chyflawni ei Genhadaeth. Mae modd i'r rhan fwyaf o'r metrigau rydym yn eu defnyddio gael eu hidlo yn ôl cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Er enghraifft, mae ein data ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd yn berthnasol i gynulleidfaoedd yn ardaloedd gwahanol y DU ac mae'n gofyn cwestiynau am gynrychiolaeth a boddhad yn y meysydd hynny. Rydym hefyd yn gallu edrych ar ddata argaeledd a defnydd yn ôl gwlad a rhanbarth. Mae'r tabl yn dangos ehangder y metrigau sydd ar gael ond nid yw'n rhestr gyflawn. Er mwyn parhau i fod yn berthnasol ar draws y Dibenion cyhoeddus, rydym wedi penderfynu cadw'r enghreifftiau wedi'u rhestru fel y nodir yn y cynnig yn hytrach na nodi lle gallai'r metrigau hyn fod yn berthnasol i wledydd a rhanbarthau.

# Cysoni'r mesur effaith

## Yr hyn a ddywedom ni

3.29 Roedd mesur perfformiad 'effaith' Fframwaith 2017 yn canolbwyntio ar ystyried barn cynulleidfaoedd am allbwn y BBC. Mae hwn yn fesur hollbwysig ar gyfer ein helpu i asesu perfformiad y BBC ac mae'n faes lle rydym yn darparu data unigryw drwy ein tracwyr ymchwil cynulleidfa pwrpasol.

3.30 Mae barn cynulleidfaoedd am allbwn y BBC yn parhau yn elfen ganolog o'r mesur 'effaith'. Fodd bynnag, roeddem wedi dweud y gallai fod metrigau eraill yn y dyfodol, gan gynnwys metrigau a allai ein helpu i fesur effaith uniongyrchol, yn hytrach na thybiedig, cynnwys ar gynulleidfaoedd, a allai ein helpu i lywio ein hasesiadau.

3.31 Roeddem yn cynnig y bydd y newid bach hwn yn rhoi hyblygrwydd i ni wrth i'n gwybodaeth a'n gwaith wrth asesu effaith y gwerth cyhoeddus mae'r BBC yn ei ddarparu esblygu. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei gyfyngu i berfformiad y BBC o ran cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.

3.32 Mae ein diwygiad arfaethedig i eiriad y mesur perfformiad ‘effaith’ wedi’i nodi isod:

- **Disgrifiad presennol**: mae hyn yn edrych yn fanwl ar beth mae cynulleidfaoedd yn ei feddwl am wasanaethau ac allbwn y BBC, gan gynnwys pa mor fodlon ydyn nhw gyda gwahanol agweddau ar ddulliau hyrwyddo Dibenion Cyhoeddus y BBC.
- **Disgrifiad arfaethedig**: mae hyn yn edrych yn fanwl ar beth mae cynulleidfaoedd yn ei feddwl am wasanaethau ac allbwn y BBC ac archwilio'r effaith y mae'r gwasanaethau a'r allbynnau hyn yn ei chael ar gynulleidfaoedd, gan gynnwys pa mor fodlon ydyn nhw gyda gwahanol agweddau ar ddulliau hyrwyddo Dibenion Cyhoeddus y BBC.

## Ymatebion rhanddeiliaid

3.33 Roedd Radiocentre a Screen Scotland yn cytuno a’r cynnig mewn egwyddor.

3.34 Mae Radiocentre yn bryderus am y diffyg manylder ynghylch yr hyn y bydd yr ehangu hwn yn ei olygu’n ymarferol.

3.35 Dywedodd Screen Scotland eu bod am sicrhau bod modd cymharu mesurau effaith o un flwyddyn i’r llall a’n bod yn parhau i fesur newidiadau i ganfyddiadau cynulleidfaoedd yr Alban o’r BBC a’i gynnwys, ac mewn ymateb i newidiadau sy’n cael eu harwain gan y sector a pholisi.

## Ein penderfyniad

3.36 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â’r newid arfaethedig i’r mesur effaith.

3.37 Mae’r Fframwaith wedi’i lunio i fod yn fframwaith trosfwaol sy’n sicrhau dull cyson o fesur perfformiad, felly nid ydym yn ei newid yn rheolaidd ac mae angen ei brofi ar gyfer y dyfodol. Rydym yn dechrau datblygu’r metrigau ar gyfer y dull newydd hwn o fesur effaith, ac rydym yn disgwyl i’r rhain ddatblygu dros amser. Ond, rydym yn credu ei bod hi’n bwysig manteisio ar y cyfle i ailgwmpasu’r mesur effaith wrth adolygu’r Fframwaith. Mae’n bwysig bod gennym yr hyblygrwydd hwn i addasu ein dull o fesur gwerth cyhoeddus y BBC o ran cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus. Bydd unrhyw ddull newydd o fesur effaith yn cael ei nodi yn Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC.

3.38 Rydym yn cytuno ei bod hi’n bwysig cymharu o un flwyddyn i’r llall, ond rydym yn rhagweld y bydd y dull newydd hwn o fesur effaith yn debygol o gael ei ddefnyddio ar gyfer astudiaethau achos o berfformiad, yn hytrach na bod yn rhan o’n gwaith cyson o adrodd ar ddata.

3.39 Rydym yn disgwyl y byddwn yn parhau i edrych ar farn cynulleidfaoedd yn yr Alban (a barn cynulleidfaoedd mewn gwledydd eraill ac yn rhanbarthau Lloegr) ac mae unrhyw ddull newydd yn fwy tebygol o fod yn ychwanegol at y dulliau presennol o ystyried effeithiau, ac felly dylai ddarparu gwybodaeth ychwanegol.

# Diweddariadau eraill i’r Fframwaith Mesur Perfformiad

## Yr hyn a ddywedom ni

3.40 Roedd Fframwaith 2017 yn nodi’r egwyddorion canlynol ar gyfer ei ddull o bennu’r mesurau perfformiad:

- Hyblygrwydd
- Cymesuredd
- Ymarferoldeb
- Tryloywder
- Dibynadwyedd/Cadernid
- Cymaroldeb

3.41 Roeddem yn cynnig cadw’r chwe egwyddor ac rydym wedi eu cymhwyso i’n ffordd ddiweddaraf o feddwl. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi ein bod yn bwriadu gwneud mân newidiadau i’r disgrifiadau o’r egwyddorion hyn i adlewyrchu ein syniadau diweddaraf a’r Drwydded Weithredu newydd. Er enghraifft, o dan 'ymarferoldeb' mae Fframwaith 2017 yn nodi, “byddwn yn ystyried ffyrdd ansoddol amgen, ar sail ad hoc, er mwyn deall perfformiad yn yr achosion hynny lle mae hi’n arbennig o anodd lleihau i fetrig mesuradwy.” Rydym nawr yn defnyddio metrigau ansoddol yn gyson yn ein hasesiad, nid dim ond ar sail ad hoc. Maent yn allweddol i’r dull mwy cynhwysfawr rydym wedi’i ddatblygu ers 2017 ac maent yn hanfodol er mwyn deall mwy am yr effaith ar gynulleidfaoedd. Maent hefyd yn fwyfwy pwysig yng ngoleuni rhai o’r amodau newydd sydd wedi’u cynnwys yn y Drwydded Weithredu newydd, er enghraifft gofyn i’r BBC ddisgrifio’r camau y bydd yn eu cymryd i wneud cynnwys yn hawdd dod o hyd iddo ar ei wasanaethau ar-lein.

### Ymatebion rhanddeiliaid

3.42 Dim ond Screen Scotland oedd yn mynd i’r afael â’r cynnig hwn yn uniongyrchol a nodwyd eu bod yn cytuno â’r cynigion.

### Ein hymateb

3.43 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â’r newidiadau arfaethedig i’r egwyddorion.

## Ymatebion sydd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn

3.44 Roedd rhai rhanddeiliaid wedi cynnwys sylwadau sydd y tu allan i gwmpas y Fframwaith a’r ymgynghoriad hwn. Yn benodol, roedd nifer o awgrymiadau ynghylch newidiadau i rwymedigaethau cynnwys y BBC. Er enghraifft, roedd Better Media yn awgrymu y dylid disgwyl i’r BBC orfod datblygu cynnwys a mentrau sy’n cefnogi’r agenda ffyniant bro. Dywedodd Ymddiriedolaeth Sandford St Martin y dylai fod yn ofynnol i’r BBC gynnal neu gynyddu nifer ac ansawdd ei gynnwys ‘mewn perygl’, a chyhoeddi targedau blynyddol ar gyfer darparu’r cynnwys hwn.

3.45 O dan y Siarter a’r Cytundeb, mae’n rhaid i ni osod Trwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU.[11] Mae’r Siarter a’r Cytundeb yn rhoi manylion yr amodau y mae’n rhaid i ni eu gosod a’u gorfodi yn y Drwydded Weithredu. Rhaid i ni osod amodau rheoleiddio priodol sy’n mynnu bod y BBC yn:

a) cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo’r Dibenion Cyhoeddus;
b) sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a

[11] Mae Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn golygu’r gwasanaethau sydd wedi’u cynnwys ar y rhestr a gyhoeddwyd gan y BBC o dan Ran 1 Atodlen 1 i’r Cytundeb, fel y caiff ei haddasu gan y BBC o bryd i'w gilydd.

c) sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.[12]

3.46 O'r herwydd, mae'r Drwydded Weithredu yn delio ag awgrymiadau ynghylch maint neu genres cynnwys y dylai'r BBC ei gynhyrchu a sut dylai adrodd ar ei gynnwys. Fe wnaethom ymgynghori ar y newidiadau i'r Drwydded Weithredu rhwng mis Mehefin 2021 a mis Rhagfyr 2022. Fel sy'n cael ei egluro yn ein Datganiad ar y Drwydded[13], mae'n rhaid i'r BBC ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys, gan gynnwys crefydd, moeseg a chynnwys ffeithiol arbenigol arall. Byddwn yn dal y BBC i gyfrif i sicrhau ei fod yn darparu cynnwys a gwasanaethau pwysig i gynulleidfaoedd.

3.47 Roedd rhanddeiliaid hefyd wedi gwneud awgrymiadau ynghylch cylch gwaith y BBC sydd y tu allan i rôl a phwerau Ofcom. Er enghraifft, nid yw'n rhan o'n rôl ni i roi arweiniad ar sut dylai'r BBC ddilyn egwyddorion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel yr awgrymwyd gan Better Media. Nodwn fod y BBC ei hun yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

[12] Erthygl 46(3) y Siarter.

[13] Datganiad:Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC (ofcom.org.uk)

# A1 Y Fframwaith Mesur Perfformiad

A1.1 Mae’r fframwaith mesur perfformiad diwygiedig wedi cael ei gyhoeddi ar wahân.

# A2 Asesiadau effaith

## Asesu'r effaith

A2.1 Mae'r dadansoddiad a nodir yn ein hymgynghoriad yn cynnwys asesiad effaith at ddibenion adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau (2003). Rydym o'r farn bod ein newidiadau i'r Fframwaith yn gymesur ac y byddant yn ein galluogi i ddal y BBC i gyfrif yn well am gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.

## Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

A2.2 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010") yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

A2.3 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ("Deddf 1998") hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

A2.4 I'n helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, yn yr ymgynghoriad, rydym yn asesu effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac yn benodol a fyddant yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu'n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.

A2.5 Mewn ymateb i'n hymgynghoriad, roedd Better Media yn dadlau y dylai Ofcom "gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 yng nghwmpas proses gwerthuso a Fframwaith y BBC, gan integreiddio ei nodau a'i amcanion yn llwyr." Dywedodd Better Media ei fod yn credu y byddai ymgorffori egwyddorion y Ddeddf Cydraddoldeb yn fframwaith mesur perfformiad y BBC yn gwella ymrwymiad y BBC i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn sylweddol, ac yn sicrhau ei fod yn gwasanaethu pob carfan o boblogaeth y DU.

A2.6 Fel sy'n cael ei egluro uchod, mae'r BBC ei hun yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod Diben Cyhoeddus 4 yn mynnu bod y BBC yn adlewyrchu, yn cynrychioli ac yn gwasanaethu cymunedau amrywiol holl ranbarthau a gwledydd y Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, yn cefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r BBC eisoes yn rhwym wrth ofynion amrywiaeth, portreadu cynulleidfaoedd a chynrychiolaeth yn y Drwydded

Weithredu ac mae'r Cytundeb yn mynnu bod y BBC yn gwneud trefniadau i hyrwyddo cyfle cyfartal.[14]

A2.7 Rydym yn dal o'r farn nad oes gan y newidiadau penodol i'r Fframwaith oblygiadau cydraddoldeb o dan Ddeddf 2010 na Deddf 1998 oherwydd eu bod yn newidiadau sydd wedi'u bwriadu'n bennaf i sicrhau bod y Fframwaith yn addas ar gyfer y dyfodol ac i wneud un newid bach i'r mesur effaith. Nid yw'r newidiadau bach hyn ynddynt eu hunain yn cael effaith negyddol na chadarnhaol ar grwpiau cydraddoldeb.

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

A2.8 Roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn rhoi fframwaith cyfreithiol a oedd yn gosod dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg.[15] Rydym wedi ystyried ein cynigion o dan Safonau Llunio Polisïau'r Gymraeg.[16] Ni chawsom unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch ein hasesiad o'r effaith ar y Gymraeg. Rydym yn dal o'r farn na fydd y Fframwaith yn cael unrhyw effeithiau andwyol, ond yn hytrach gallant gael effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn oherwydd ein bod yn credu y bydd sicrhau bod y Fframwaith yn addas ar gyfer y dyfodol a gwneud un newid bach i'r mesur effaith yn ein galluogi i ddal y BBC i gyfrif yn well am gyflawni ei genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.[17]

---

[14] Paragraff 12 o Atodlen 3 i'r Cytundeb

[15] Mae Adran 67 o'r Mesur yn nodi nad yw'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol, nac yn awdurdodi person i'w gwneud yn ofynnol, i berson gydymffurfio â safon os yw'r safon honno, ac i'r graddau y mae'r safon honno, yn ymwneud â darlledu.

[16] Fel y nodir yn: Hysbysiad-Cydymffurfio44-Y-Swyddfa-Gyfathrebiadau-cy.pdf (ofcom.org.uk) a HysbysiadCydymffurfio44-Y-Swyddfa-Gyfathrebiadau-en.pdf (ofcom.org.uk)

[17] Er enghraifft, rydym yn nodi bod Diben Cyhoeddus 4 yn datgan y dylai'r BBC, ymysg pethau eraill, sicrhau ei fod yn darparu allbwn a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig.